
# Josua a brwydr Jericho

www.lambsongs.co.nz     Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)     Lluniau: Richard Gunther




Pan wnaeth Josua a phobl Israel ufuddhau i Dduw fe wnaeth Ef roi buddugoliaeth fawr iddyn nhw. Ond dydy Duw ddim angen byddinoedd mawr i ennill brwydrau.



Roedd Josua'n pendroni sut y byddai Duw'n ei helpu i oresgyn dinas gaerog Jericho. Gwelodd ddyn â chleddyf yn sefyll nepell oddi wrtho. "Wyt ti'n ffrind neu'n elyn?" gofynnodd Josua iddo.




"Negesydd Duw ydw i," atebodd y dyn. "A Chadlywydd byddin Duw." Syrthiodd Josua ar ei liniau a dywedodd, "Dyweda wrtha i beth mae Duw am i mi ei wneud?"



Aeth Josua at ei filwyr. "Bydd Duw yn rhoi dinas gaerog Jericho i ni. Ond mae'n rhaid i ni wneud beth mae Ef am i ni ei wneud. Ac os gwelwch chi gortyn coch yn y ffenest, mae'n rhaid i chi achub Rahab."



Tu mewn i ddinas gaerog Jericho roedd Rahab yn gwylio ac yn aros. Roedd Josua wedi addo ei hachub hi a'i theulu pan wnaeth hi guddio'r ysbïwyr.



Gwelodd Rahab bobl Israel yn cerdded oddi amgylch waliau Jericho unwaith pob dydd, am chwe diwrnod.



Yna ar y seithfed dydd wnaethon nhw gerdded o amgylch y ddinas saith gwaith gyda'r offeiriaid yn chwythu utgyrn.



A'r tro olaf fe wnaethon nhw floeddio dros y lle a syrthiodd waliau Jericho yn yfflon i'r llawr.Roedd y ddinas yn eiddo nawr i bobl Israel, nid oherwydd eu bod yn fyddin gref, ond oherwydd nerth a phŵer Duw.